# Rhwydwaith Dysgu Ynni

Cefnogi cynghorau lleol fel hwyluswyr ynni cymunedol

Ymunwch ậ chyfle cyffrous i ddarganfod mwy am ynni cymunedol a'r modd y gallai pobl leol elwa ar ynni glận a biliau is.

**Beth yw'r Rhwydwaith Dysgu Ynni?**

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Ashden Climate Solutions wedi derbyn £1.5m gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yr ariannwr cymunedol mwyaf yn y DG. I gyflymu twf ynni cymunedol ar draws y DG, sefydlwyd Rhwydwaith Dysgu Ynni, a gyflwynir gan bartneriaeth sy'n cynnwys Ashden Climate Solutions (Ashden), Community Energy England (CEE), Community Energy Scotland (CES), Ynni Cymunedol Cymru (YCC), Action Renewables (AR) a'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE). Ariennir y Rhwydwaith gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol.

Mae cynghorau lleol mewn sefyllfa unigryw i ysgogi ynni cymunedol, trwy ymgysylltiad llawr gwlad â phobl leol a thrwy weithio gyda grwpiau cymunedol i droi syniadau yn realiti. Gan gydnabod hyn, mae'r rhwydwaith yn ceisio gweithio'n agos gyda chynghorau lleol ledled y DG sydd eisiau galluogi a darparu ynni cymunedol yn eu hardal.

**Beth yw Ynni Cymunedol?**

Mae ynni cymunedol yn ymwneud ag ynni adnewyddol o dan arweiniad y gymuned, lleihad yn y galw am ynni a phrosiectau cyflenwi ynni p'un ai wedi eu perchnogi'n gyfangwbl ac/neu o dan reolaeth cymunedau drwy bartnertiaeth rhyngddynt ậ phartneriaid masnachol neu'r sector cyhoeddus. Gall ymddangos fel unrhyw beth, yn amrywio o fferm solar o dan berchnogaeth y gymuned, gwasanaeth cynghori ailosod lleol, i ddarparu gweithdai addysg arbed ynni mewn ysgolion lleol neu redeg clwb ceir trydan sy'n eiddo i'r gymuned.

Mae'n ymwneud ậ phobl yn rheoli dyfodol eu hynni mewn dull democrataidd yn osgystal ậ gweithio gyda'i gilydd. Mae'n sector sy'n tyfu: yn 2023 roedd yna 583 sefydliad ynni cymunedol, arbedwyd £4.4 miliwn ar filiau ynni, arbedwyd 165,980 tunnell CO2 mewn blwyddyn o waith gan gymunedau (Ffynhonnell: Adroddad State of the Sector)

**Y Cyfle**

Bwriad y rhwydwaith yw recriwtio 5-10 o gynghorau lleol ar draws y DG i weithio gyda nhw dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi twf sgiliau a gwybodaeth a fydd yn galluogi a darparu gweithgareddau ynni cymunedol yn lleol. Mae hwn hefyd yn gyfle rhyfeddol i gwrdd, dysgu oddi wrth a chydweithio gyda chynghorau lleol eraill o bob rhan o'r DG a rhannu heriau a datrysiadau.

Mae hyn yn cael ei gydlynu gan un o bartneriaid cyflenwi'r Rhwydwaith Dysgu Ynni, y Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE), elusen genedlaethol annibynnol sy'n cefnogi pobl a sefydliadau ledled y DG i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a dileu'r dioddefaint a achosir gan gartrefi oer.

**Beth yw'r ymrwymiad amser?**

Bydd chwe gweithdy 1.5 awr (yn cael eu cyflwyno ar-lein). Cynhelir y cyntaf o'r rhain ym mis Tachwedd 2024. Cynhelir y pum gweithdy canlynol rhwng Ionawr 2025 a Mawrth 2026.

Mae mynychu gweithdai yn rhan greiddiol o'r rhwydwaith felly mae eich cyfranogiad yn y rhain yn rhan fandadol o'ch ymgyfraniad. Tu allan i'r gweithdai, bydd angen ymroddiad amser arnoch yn nhermau dwyn yn eu blaen y gweithredoedd a ganfuwyd yn y gweithdai a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd.  Fel rhan o'r cyfle hwn byddwch hefyd yn medru derbyn cyngor a chefnogaeth barhaus oddi wrth y Ganolfan Ynni Cynaliadwy.

**Pwy sy'n gymwys?**

Mae'n rhaid i chi fod yn gyngor lleol yn y DG gyda diddoreb mewn cefnogi twf ynni cymunedol yn eich ardal leol. Gallwch fod yn seiliedig yn Lloegr, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

- Lloegr – cyngor plwyf neu dref
- Cymru – cynghorau tref neu gynghorau cymuned
- Yr Alban – cynghorau cymuned
- Gogledd Iwerddon – cynghorau dosbarth, Cymdeithasau Cymunedol a Phwyllgorau Pentref

Rydym yn edrych am gymysgedd o brofiad o ynni cymunedol felly p'un a oes gennych beth profiad, neu ddim profiad, ond bod gennych er hynny ddiddordeb, os gwelwch yn dda gwnewch gais.

**Sut fedra i wneud cais?**

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen fer Datganiad Diddordeb erbyn dydd Mawrth 17eg Medi am 17.00.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfle hwn, cysylltwch ậ elncommunity@cse.org.uk